




Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

.....

RHEOLEIDDIO EIN DYFODOL

.....

Pam fod yn rhaid i'r system
rheoleiddio bwyd newid
a sut ydym ni am wneud hyn



Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gyfrifol am sicrhau bod system reoleiddio effeithiol ar waith i wirio bod busnesau bwyd yn bodloni eu rhwymedigaethau i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae'r ASB ac awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol i gywiro hyn pan nad dyma'r achos.

Rydym ni wedi dod i'r casgliad ei bod hi'n bryd gwella'r ffordd yr ydym ni'n rheoleiddio bwyd. Mae'r papur hwn yn egluro'r cyfeiriad yr ydym ni'n ei ddilyn i greu system fodern a chymesur sy'n seiliedig ar risg, yn gadarn ac yn wydn.

Mae'n bwysig nodi bod hyn yn ymwneud â *sut* ydym ni'n darparu sicrwydd mewn perthynas â rheoleiddio; *nid* yw'n ymwneud â newid y rheoliadau sy'n nodi beth mae'n rhaid i fusnesau ei wneud. Rydym ni'n bwriadu gwella'r ffordd y caiff mesurau rheoli eu gweithredu ar draws y gadwyn fwyd, gan gynnwys ar gyfer bwyd anifeiliaid, ond rydym ni'n blaenoriaethu'r manau hynny lle nad yw'r system wedi'i moderneiddio mewn blynyddoedd diweddar a lle mae angen hynny fwyaf.

Rydym ni'n gweld llawer o gyfleoedd i wneud pethau'n well. Er mwyn i'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn bresenoldeb cryf a chredadwy yn yr economi bwyd byd-eang, mae'n rhaid i'r gyfundrefn reoleiddio gadw'n gyfredol â'r newidiadau cyflym yn yr economi hwnnw. Bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn newid patrymau cynhyrchu, masnachu a bwyta bwyd, gan bwysleisio'r angen am system reoleiddio fwy hyblyg ac ymatebol.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gweithredu nawr, yn hytrach na disgwyl nes bod y system yn diffygio, a fyddai'n arwain at beryglon niweidiol i iechyd y cyhoedd a hyder mewn bwyd.

Ers mis Chwefror 2016, rydym ni wedi bod yn ymgynghori a gweithio â defnyddwyr, busnesau bwyd, rhannau eraill o lywodraeth leol a chenedlaethol, a rheoleiddwyr bwyd mewn

gwledydd eraill, i ddatblygu ein dull o reoleiddio bwyd yn y dyfodol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym ni'n gweithio'n agos â'n cydweithwyr yn Safonau Bwyd yr Alban; lle bo'n briodol, rydym yn anelu at sicrhau canlyniadau cyson ar draws newidiadau'r ASB a'r Strategaeth Reoleiddio yn yr Alban.

Ein nod yw sefydlu dull cynaliadwy o reoleiddio diogelwch bwyd, un sy'n ysgogi busnesau i newid eu hymddygiad er budd defnyddwyr. Erbyn 2020, ein bwriad yw gweithredu model rheoleiddio newydd ar gyfer bwyd. Bydd yn fodel sy'n hyblyg ac yn gallu addasu i amgylchiadau'r dyfodol. Mae'r papur hwn yn disgrifio beth ydym ni'n disgwyl ei weld yn y model. Rydym ni wrthi'n ei gynllunio nawr, er mwyn i ni allu ceisio adborth pellach wrth nesáu at y camau dylunio manwl.

Rydym ni'n bwriadu cyflwyno newidiadau sylfaenol i'r ffordd yr ydym ni'n rheoleiddio. Ni ellir cyflawni'r newidiadau hyn i gyd ar unwaith, ac nid yw pob un o fewn gallu'r ASB ar ei phen ei hun. Mae hyn yn golygu bod gofyn i ni gymryd camau breision yn y cyfnod interim.

Ers i ni gychwyn ar y rhaglen drawsnewid hon, mae'r Deyrnas Unedig wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, rydym ni'n blaenoriaethu'r elfennau hynny o'n system newydd a fydd yn tawelu meddyliau defnyddwyr a chefnogi'r diwydiant bwyd o'n diwrnod cyntaf y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Ond dim ond arhosfan yw hynny o ran gweithredu'r diwygiadau llawn rydym ni wedi'u nodi i gyflawni system fodern, cadarn a chynaliadwy.

Rydym ni'n galw ar bawb sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid i ymuno â ni ar y daith uchelgeisiol hon.

Rydym ni'n gweld llawer o gyfleoedd i wneud pethau'n well.

RHESYMAU DROS NEWID

Rydym ni'n newid y system bresennol o reoleiddio'r diwydiant bwyd gan ein bod o'r farn ei bod wedi dyddio a'i bod yn dod yn fwyfwy anghynaliadwy.

Mae'r system bresennol wedi bod ar waith ers mwy na 30 mlynedd ac wedi gwasanaethu defnyddwyr yn dda. Ond nid yw wedi parhau'n gyfredol â'r newidiadau technolegol yn y diwydiant bwyd, ac nid yw'n ddigon hyblyg i addasu i'r amgylchedd sy'n newid.

Nid yw'r dull 'un rheol i bawb' o reoleiddio busnesau bwyd yn gweddu i natur amrywiol iawn y diwydiant. Mewn blynyddoedd diweddar, rydym ni wedi gweld nifer o ddatblygiadau newydd o fewn y tirlun bwyd a diogelwch bwyd byd-eang; er enghraifft, manwerthwyr ar-lein, gwasanaethau dosbarthu neu gludo bwyd, archwilwyr preifat, cynlluniau ardstio diogelwch bwyd annibynnol. Mae'r rhain, a llawer o ddatblygiadau eraill, wedi lleihau peryglon, creu gwahanol beryglon a chynyddu peryglon. Ond nid yw'r dull rheoleiddio presennol yn ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrech yn hawdd ar beryglon sy'n newid. Mae'n lletchwith, yn hytrach nag yn hyblyg ac yn ystwyth.

Mae gwendid sylfaenol yn y model presennol gan nad yw'r ASB yn gwybod, mewn amser real, faint o fusnesau bwyd sy'n bodoli mewn gwirionedd, a phwy sy'n eu gweithredu. Nid ydym yn gallu cael darlun cyflawn, boed mewn digwyddiad neu greisis bwyd, neu er mwyn gwneud penderfyniadau. Mae gofyn i ni fynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod gennym ni drosolwg o'r holl fusnesau bwyd, yn hytrach na bod y data pwysig hwn yn cael ei ddal gan awdurdodau lleol unigol yn unig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae'r amgylchedd rheoleiddio hefyd yn mynd i newid, gyda'r Deyrnas Unedig yn paratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd yn hanfodol i'r ASB, fel yr Awdurdod Cymwys Canolog ar gyfer diogelwch bwyd, ddangos bod model rheoleiddio cadarn ac effeithiol ar waith.

Mae hyn yn gymwys i bob busnes bwyd, ond bydd rheoli mewnforion bwyd a busnesau sy'n allforio bwyd yn hanfodol. Bydd gofyn i ni fod yn siŵr bod pob rhan o'r system yn ennyn hyder yn y rheiny sy'n penderfynu p'un a ydyn ni'n rheoli'r cadwyni bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddigonol.

Yn olaf, mae'r model yn anghynaliadwy yn ariannol, gyda threthdalwyr yn ysgwyddo costau rheoleiddio bwyd mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â pholisi rheoleiddio ehangach¹. Ar yr un pryd, mae awdurdodau lleol sy'n cynnal y rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn o dan bwysau ariannol cynyddol, i'r fath raddau bod rhai ohonynt yn cael trafferth cyflawni eu swyddogaethau yn llawn.



**BYDD GOFYN I NI FOD YN SIŴR BOD
POB RHAN O'R SYSTEM YN
ENNYN HYDER**

¹ Adolygiad Swyddfa'r Cabinet ar Ddyfodol Rheoleiddio (Saesneg yn unig) <https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-futures-review>

EIN DULL NI O WEITHIO

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi ymgynghori'n eang ar sail ffurfio system reoleiddio ar gyfer y dyfodol. Roedd pum egwyddor lle'r oedd cryn dipyn yn cytuno arnynt.

Ers hynny, rydym wedi datblygu glasbrint i ddisgrifio ein dyhead a'n syniadau, ar lefel uchel iawn. Rydym ni wedi bod yn profi'r glasbrint hwn, a dyluniad manylach ein dull cyfan, gan ddefnyddio dull creu polisi agored. Mae hyn wedi cynnwys pawb sy'n gweithio gyda bwyd – o grwpiau defnyddwyr i berchnogion cynlluniau sicrwydd preifat, awdurdodau lleol i fusnesau bwyd (o bob maint), rheoleiddwyr bwyd mewn gwledydd eraill i reoleiddwyr nad ydynt yn ymwneud â bwyd yn y Deyrnas Unedig. Rydym ni wedi nodi'r arfer gorau a gwersi a ddysgwyd gan eraill er mwyn ein galluogi i ddatblygu'r model rheoleiddio gorau ar gyfer bwyd. Rydym ni wedi cynnal astudiaethau dichonolrwydd (*feasibility studies*) i brofi syniadau a dulliau gweithredu, ac wedi dysgu oddi wrthynt; byddwn ni'n parhau i wneud hyn, ac yn treialu syniadau mewn 'amser go iawn' wrth i ni ddatblygu'r gyfundrefn newydd yn fanylach.

Nid yw hwn yn rhywbeth y byddwn ni'n ei gynnal unwaith yn unig. Ein cynllun yw datblygu model cyflawni a fydd yn ddeinamig ac yn hyblyg i'w addasu wrth i amgylchiadau newid ac wrth i dechnoleg ddatblygu yn y dyfodol.

Mae risgiau bwyd, ymddygiadau busnesau, disgwyliadau defnyddwyr, sbardunau economaidd (i enwi ond ychydig) yn newid drwy'r amser, felly bydd hi'n hanfodol ein bod ni'n parhau i adolygu'r system.

Y PUM EGWYDDOR

-
- Busnesau sy'n gyfrifol am gynhyrchu bwyd diogel a bwyd sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a dylent allu dangos eu bod yn gwneud hynny. Mae gan ddefnyddwyr yr hawl i gael gwybodaeth sy'n eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus am y bwyd maent yn ei brynu. Mae gan fusnesau gyfrifoldeb i fod yn dryloyw ac yn onest wrth ddarparu'r wybodaeth honno.
-
- Dylai penderfyniadau'r ASB a phartneriaid rheoleiddio fod wedi'u teilwra, yn gymesur ac yn seiliedig ar ddarlun clir o fusnesau bwyd y Deyrnas Unedig.
-
- Dylai'r rheoleiddiwr gymryd i ystyriaeth bob ffynhonnell wybodaeth sydd ar gael.
-
- Dylid cydnabod busnesau sy'n gwneud y peth iawn i ddefnyddwyr; caiff camau eu cymryd yn erbyn y rheiny nad ydynt.
-
- Dylai busnesau dalu costau rheoleiddio, ac ni ddylai'r costau hyn fod yn fwy na sydd gofyn iddynt fod.
-

CYWIR O'R CYCHWYN CYNTAF: DECHRAU BUSNES/COFRESTRU MANYLACH

Mae helpu busnesau newydd i ddeall eu cyfrifoldebau o ran cynhyrchu bwyd diogel, a sut i fodloni'r cyfrifoldebau hynny, yn un o gonglfeini'r dull newydd.

Mae angen sefydlu busnesau i lwyddo, gan sicrhau cywirdeb o'r cychwyn cyntaf cyn datblygu arferion gwael a allai beryglu defnyddwyr. O dan y system gofrestru bresennol, mae llawer o fusnesau nad ydynt yn cofrestru'n rhagweithiol wrth iddynt ddechrau o'r newydd neu roi gwybod i'r awdurdodau am newidiadau a all effeithio ar y risg sy'n gysylltiedig â'u busnesau. Byddwn yn sefydlu'r rhesymau dros hyn, ac yn gweithredu ar unrhyw rwystrau a nodir fel ei bod yn haws i fusnesau gofrestru fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Ein canlyniad delfrydol yw rhoi gofyniad 'Trwydded i Fasnachu' ar bob busnes bwyd. Byddai hyn yn golygu dal pawb cyn iddynt ddechrau cynhyrchu, gwerthu neu weini bwyd, a'u helpu i ddechrau arni'n iawn. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen deddfwriaeth newydd, a fyddai'n cymryd blynyddoedd i'w gweithredu. Felly, yn y cyfamser, rydym ni am wneud popeth o fewn ein gallu i gael yn agos at fanteision Trwydded i Fasnachu drwy wella'r system gofrestru bresennol.

Byddwn yn cyflwyno dull newydd digidol a fydd yn ei gwneud yn haws i fusnesau bwyd gael gwytodaeth a chanllawiau i'w helpu i gydymffurfio â rheoliadau diogelwch a safonau cyn dechrau masnachu.

Byddwn yn gwella'r dull o fynd ati i gofrestru, i'w gwneud yn haws i fusnesau newydd ddeall beth sy'n ofynnol ohonynt.

Byddwn yn gweithio ag eraill i gymhell busnesau i gofrestru, er enghraifft drwy ddatblygu cynghreiriau strategol â thrydydd partion (e.e. gwasanaethau archebu a chludo bwyd ar-lein, sefydliadau ariannol a chwmnïau yswiriant) i sicrhau bod busnesau newydd yn ymwybodol o'r gofynion. Rydym ni eisiau creu amgylchedd anghyfeillgar i'r rheiny nad ydynt yn cofrestru'n rhagweithiol.

Byddwn ni'n manteisio i'r eithaf ar y gwerth yr ydym ni'n ei gael o'r wybodaeth gofrestru sydd gennym, drwy ddatblygu system ddigidol i gael mynediad 'amser go iawn' at fanylion cofrestru pob busnes bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Bydd hyn yn galluogi'r ASB yn ein rôl fel yr Awdurdod Cymwys Canolog³ i fod â throsolwg dros bob busnes bwyd.



Bydd gennym wybodaeth well er mwyn nodi a rheoli risg ar draws y gadwyn fwyd. Bydd yn golygu ein bod ni, ein partneriaid cyflawni mewn awdurdodau lleol, ac eraill, yn gallu ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i ddioglyddiadau bwyd, a gwella mesurau i ddiogelu defnyddwyr. Bydd gwybod mwy am fusnes bwyd yn ein galluogi i wneud gwell penderfyniadau am ei reoleiddio.

³ Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir er mwyn sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid ei ddilysu

SEGMENTU: FFITIO BUSNESAU YN Y MODEL RHEOLEIDDIO

Mae amrywiaeth enfawr o ran y mathau o fusnesau yn y gadwyn fwyd.

Ni all un dull rheoleiddio ar ei ben ei hun fynd i'r afael yn ddigonol â'r amrywiaeth o ran maint, diwylliant neu berygl (ymhlith nifer o nodweddion eraill). Mae angen system sydd yn fwy soffistigedig o ran delio â'r realiti hwn. Byddwn yn cyflwyno fframwaith rheoli risg newydd a fydd yn pennu natur, amllder a dwysedd y mesurau rheoli y bydd busnes bwyd yn destun iddynt.

Mae'r dull presennol yn canolbwyntio ar natur a graddfa'r gweithgarwch o fewn y busnes bwyd. Rydym ni'n bwriadu adeiladu ar hyn a defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion risg yn seiliedig ar wybodaeth ehangach am y busnes, gan gynnwys yr wybodaeth a gesglir ar y pwynt cofrestru ac o ffynonellau eraill. Er enghraifft, byddwn yn archwilio'r potensial o gymryd i ystyriaeth perfformiad cydymffurfio busnes mewn meysydd rheoleiddio eraill y tu hwnt i fwyd. Drwy wneud hyn, gallwn feirniadu ymddygiad a diwylliant y busnes a'r effaith y gall hyn ei chael o ran cydymffurfio â diogelwch bwyd.



BYDDWN YN CYFLWYNO FFRAMWAITH RHEOLI RISG NEWYDD

Bydd defnyddio data yn y modd hwn, am y tro cyntaf, yn galluogi'r ASB i edrych ar draws y boblogaeth gyfan o fusnesau bwyd.

Byddwn ni'n gallu dadansoddi'r ffactorau sydd wedi'u cysylltu agosaf at ganlyniadau hylendid bwyd gwael – mae'n bosibl nad yw rhai o'r rhain yn ymwneud â bwyd ei hun, ond fe allant fod yn arwydd o ddiwylliant rheoli gwael sy'n gysylltiedig â lefelau cydymffurfio isel ag unrhyw reoliad neu ofyniad cyfreithiol. Bydd hyn, law yn llaw â gwybodaeth sydd ar gael am gydymffurfiaeth (gan gynnwys yr wybodaeth sydd ar gael i ni gan fusnesau bwyd eu hunain a thrydydd partïon), yn ein helpu i ddatblygu fframwaith mwy soffistigedig i ddiffinio'r amllder a'r math o ymyriad ar gyfer pob busnes.

Rydym ni'n bwriadu cydnabod yn well y busnesau hynny sy'n gallu dangos eu bod yn cydymffurfio'n barhaus, gan leihau'r baich rheoleiddio arnynt drwy sicrhau bod dulliau ymyrryd yn gymesur.

I rai busnesau, bydd y risg mor isel na fydd angen arolygiad. I eraill, gall dulliau arolygu fod yn fwy cadarn a thrwyadl o'i gymharu â'r hyn maent wedi'i brofi hyd yn hyn. Er mwyn sicrhau bod pob busnes yn parhau i fod yn y categori cywir, byddwn yn ceisio cadarnhad o unrhyw newidiadau mewn gweithgarwch er mwyn i ni allu pennu a yw eu sgôr risg wedi symud.

Rydym ni hefyd yn bwriadu symleiddio'r model cyflawni drwy integreiddio'r elfennau hylendid bwyd a safonau bwyd i roi dull mwy holistaidd o wirio bod busnesau bwyd yn cwrdd â'u holl rwymedigaethau diogelwch bwyd.

SICRWYDD: CAEL Y DYSTIOLAETH I DDANGOS BOD BUSNES YN GWNEUD Y PETH IAWN

Gwybod bod busnesau yn bodloni eu cyfrifoldebau diogelwch bwyd yw'r rhan bwysicaf o'r model newydd, ac rydym ni'n bwriadu defnyddio amrywiaeth ehangach o ffynonellau i'n helpu i ddatblygu'r safbwynt hwnnw.

Rydym ni eisiau bod yn hyderus bod busnesau yn gwneud y peth iawn: byddwn ni'n cyflwyno mwy o opsiynau o ran sut y gallant brofi hynny.

Mae llawer o fusnesau yn buddsoddi'n helaeth mewn prosesau mewnol sy'n rhoi iddynt sicrwydd eu bod yn rheoli eu risgiau diogelwch a safonau bwyd. Maent yn gwneud hyn oherwydd eu dyletswydd *nhw* i gynhyrchu a darparu bwyd diogel a diliys.

Lle mae'r prosesau hyn yn gadarn a lle maent yn bodloni'r safonau a osodir gan yr ASB, rydym yn bwriadu iddynt fod yn fan cychwyn yn ein model newydd. Drwy ganiatáu i'r busnesau brofi'r ffyrdd y maent yn cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau sy'n diogelu'r cyhoedd, gallwn osgoi dyblygu gwaith o ran y gwiriadau a'r arolygiadau y mae llawer o fusnesau yn eu hwynebu. Gan ddibynnu pa mor dda yw'r wybodaeth a rennir gan fusnesau, gan gynnwys eu perfformiad yn y gorffennol, byddwn yn gosod yr amllder a'r math o weithgarwch arolygu y maent yn eu hwynebu. Mae hyn yn golygu y bydd busnesau da a chyfrifol sy'n cydymffurfio yn wynebu llai o faich rheoleiddio, ac yn rhyddhau adnoddau awdurdodau lleol i dargedu'r busnesau sy'n peri'r risg mwyaf i iechyd y cyhoedd.

Byddwn yn cyflwyno technolegau digidol i alluogi data sicrwydd i lifo i'r system – a chyn belled ag sy'n bosibl – i'w gael mewn amser real. Wrth i dechnoleg ddod yn fwy clyfar ac yn rhatach, dylai hyn fod yr un mor ddefnyddiol i fusnesau bach ag i gwmnïau mawr.

Mae eisoes llawer o gynlluniau sicrwydd preifat mewn bwyd. Mae'r rhain yn ychwanegu gwerth at fusnesau mewn sawl ffordd: eu helpu i gadw'n gyfredol a gofynion newydd ac arfer da; tystiolaeth i ddefnyddwyr neu'r gadwyn gyflenwi o ansawdd eu prosesau bwyd; tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth a safonau rheoleiddio; a bodloni safonau neu ddisgwyliadau moesegol ac ansawdd eraill grwpiau defnyddwyr penodol. Rydym ni'n gweld rôl ffurfiol ehangach i'r cynlluniau sicrwydd preifat sydd eisoes ar waith ym maes diogelwch a safonau bwyd, ac rydym ni eisiau ymgorffori'r sicrwydd y gallant ei gynnig mewn ffordd strwythuredig.

Mae gan y cynlluniau hyn ran bwysig i'w chwarae yn ein model newydd, gan eu bod yn gallu bod yn rhan o'r dystiolaeth sy'n dangos bod busnes yn cyrraedd y safonau cywir.

Byddwn yn parhau i arolygu a chymeradwyo pob cynllun er mwyn bod yn hyderus bod eu safonau, eu hannibyniaeth a'u dibynadwyedd yn bodloni ein disgwiliadau, gan fod yn glir nad hunan reoleiddio yw'r defnydd hwn o sicrwydd preifat.

Byddwn ni'n hoffi gweld cynlluniau o'r fath yn gweithredu ar draws y diwydiant bwyd cyfan, gan eu bod yn helpu i wella safonau a pherfformiad. Po fwyaf y busnesau sy'n gweld ei bod o fantais iddynt wneud y peth iawn, a chyn belled â'u bod yn gwneud y peth iawn, y mwyaf tebygol yw hi eu bod yn galw allan y busnesau hynny sy'n tanseilio hyder y cyhoedd ac yn peryglu iechyd y cyhoedd.

Ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws sawl safle, byddwn yn canolbwyntio fwy ar y mesurau rheoli sy'n gweithredu ar lefel y busnes yn hytrach nag ar bob safle unigol.

Byddwn yn gwneud hyn drwy wella cynllun y Prif Awdurdod a dull y Strategaeth Arolygu Genedlaethol.



Rydym ni'n gweithio â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Prif Awdurdodau a'r busnesau maent yn gweithio â nhw i ddatblygu'r meini prawf ar gyfer Strategaethau Arolygu Genedlaethol ar gyfer bwyd a'r safonau sy'n ofynnol i sicrhau bod y rhain yn addas at eu diben.

Gyda'r dull hwn, bydd sicrwydd bod y busnes yn bodloni ei gyfrifoldebau yn cael ei bennu gan ei Brif Awdurdod. Bydd hyn yn rhoi i ni wybodaeth lawer gwell am ddulliau rheoli a pherfformiad y busnes cyfan. Dylai leihau lefel ac amllder yr ymyriadau gan awdurdodau lleol mewn

safleoedd unigol, gan leihau'r baich rheoleiddio ar y busnes pan fo ganddo dystiolaeth i ddangos lefelau cydymffurfio cadarn. Ond, mae hefyd yn golygu bod llawer mwy yn y fantol os yw busnes yn methu â pherfformio. Yn hytrach na bod un safle unigol yn destun sylw ychwanegol i gywiro pethau, bydd gofyn i'r busnes cyfan ymateb yn effeithiol. Rydym ni'n credu y bydd hyn yn sicrhau bod diogelwch bwyd, dilysrwydd ac iechyd y cyhoedd yn flaenoriaeth i arweinwyr busnesau mwy o ran maint a chymhlethdod.

Bydd awdurdodau lleol yn parhau i gynnal ystod lawn o fesurau rheoli mewn busnesau nad oes ganddynt systemau sicrwydd ffurfiol a chydabyddedig ar waith, ynghyd â'u cyfrifoldebau eraill o ran ymyriadau gorfodi. Rydym ni'n gobeithio, drwy ryddhau adnoddau awdurdodau lleol drwy'r dull newydd hwn, bydd hefyd yn golygu eu bod yn gallu gwneud hyd yn oed yn fwy i gefnogi busnesau yn y sector bwyd, gyda chynghor a chanllawiau.

Rydym ni hefyd yn gweld y potensial o ddefnyddio Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig o fewn ein model. Yr archwilwyr hyn fyddai pobl sy'n gweithio yn y sector preifat, ac wedi'u hardystio fel unigolion sy'n bodloni safonau cymhwysedd yr ASB. Byddai eu tystiolaeth o sicrwydd busnes yn swyddogol o ran ei natur. Byddai cyflwyno'r rôl hon yn cynyddu'r gallu o ran sicrwydd, yn rhoi dewis i fusnesau bwyd o

ran ble maent yn cael y sicrwydd hwnnw ac fe allai hefyd gynnig adnodd cymwys i asesu cydymffurfiaeth o fewn busnes bwyd mwy cymhleth ac arbenigol, lle mae'n dod yn fwy anodd i awdurdodau lleol gynnal cymwyseddau o'r fath.

At hynny, rydym ni'n gweld rôl glir ar gyfer defnyddwyr o ran annog ymddygiad gwell gan fusnesau. Mae gennym ni dystiolaeth o ba mor effeithiol yw hyn o'n profiad gyda'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Dyna pam y byddwn yn integreiddio'r ystod ehangach hon o ffynonellau sicrwydd, gan gynnwys Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig, yn ein dulliau tryloywder.

Rydym ni'n gobeithio, drwy ryddhau adnoddau awdurdodau lleol drwy'r dull newydd hwn, bydd hefyd yn golygu eu bod yn gallu gwneud hyd yn oed yn fwy i gefnogi busnesau yn y sector bwyd, gyda chyingor a chanllawiau.

Rydym yn deall grym defnyddwyr a sylwebwyr yn cael gwybodaeth am gydymffurfiaeth busnes, ac rydym eisiau harneisio'r grym hwn.

Mae cryfhau cryfder a gwydnwch y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn nod allweddol, gan gynnwys sicrhau ei fod yn gynaliadwy a bod arddangos sgoriau yn dod yn orfodol yn Lloegr.

Un o brif fanteision y dull sicrwydd newydd hwn yw y bydd gennym drosolwg mwy cyflawn o gydymffurfiaeth busnes. Felly, bydd angen i ni gael dull newydd o gasglu ac adrodd ar ddata perfformiad i adlewyrchu hyn. Bydd hyn yn datblygu wrth i fwy o ffynonellau gwybodaeth sy'n bodloni ein safonau ddod ar gael a bydd angen i ni allu rheoli hyn wrth adrodd ar dueddiadau blwyddyn-ar-flwyddyn mewn perfformiad busnes. Hefyd, bydd angen dull newydd i wirio bod pob rhan o'r model yn gweithredu ar wahân, i'r safonau cywir. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran "Beth sy'n newid i'r ASB".

YMYRRYD PAN NAD YW PETHAU'N IAWN

Bydd cael syniad cliriach o beth mae busnesau yn ei wneud yn ei gwneud yn llawer haws canfod problemau pan maent yn codi.

Bydd defnyddio amrywiaeth helaeth o ffynonellau sicrwydd yn rhyddhau capasiti o fewn awdurdodau lleol i gefnogi busnesau newydd, cymryd camau priodol ac amserol yn erbyn busnesau nad ydynt yn cydymffurfio, a pharhau i ymgymryd ag amrywiaeth lawn o fesurau rheoli mewn busnesau nad oes ganddynt systemau sicrwydd ffurfiol a chydnyddedig ar waith.

Mae ffynonellau gwybodaeth eraill y gallwn eu defnyddio i'n helpu i nodi ble mae problemau yn digwydd – neu'n well fyth – ein rhybuddio ble maent yn debygol o ddigwydd. Rydym ni'n datblygu dull strategol newydd o gadw gwyliadwriaeth a sganio'r gorwelion i nodi peryglon sy'n dod i'r amlwg a ble mae gofyn i ni ymyrryd i ddiogelu defnyddwyr.

Rydym ni'n cryfhau ein perthynas â phartneriaid rhyngwladol a gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gweithredu yn rhyngwladol er mwyn i ni allu elwa o'u gwybodaeth, gan adlewyrchu natur fyd-eang y gadwyn fwyd.

Bydd ein huchelgais i ehangu a dyfnhau rôl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd hefyd yn gwneud gwahaniaeth fan hyn, os ydym ni'n sicrhau'r adnoddau a'r grymoedd sydd eu hangen i ddatblygu'r Uned honno y tu hwnt i'w chwmpas a'i maint presennol.

Pan nad yw busnesau yn bodloni eu cyfrifoldebau, byddwn yn gadarn ac yn gyflym wrth ddelio â nhw, p'un a yw'r diffyg

cydymffurfio yn ymwneud â diogelwch bwyd, dilysrwydd neu unrhyw faes arall o ddiddordeb i ni. Credwn y gall cosbau eraill ategu ein harfau gorfodi presennol, gan annog busnesau i ddychwelyd at ymddwyn yn gywir yn gyflym. Er enghraifft, gallai defnyddio cosbau sifil megis hysbysiadau cosb benodedig ysgogi'r ymddygiadau cywir, a lleihau'r baich ar awdurdodau rheoleiddio a'r system gyfreithiol.

Rydym ni'n gweld rôl fwy ar gyfer busnesau o ran rhoi cipolwg o'u busnes neu wybodaeth i ni sy'n helpu'r ASB gynnal yr ymyriadau cywir.

Gallai hyn fod yn wybodaeth am eu cadwyni cyflenwi eu hunain os oes ganddynt bryderon, neu wybodaeth o rywle arall am dwyll neu droseddu posibl. Rydym ni eisiau datblygu perthynas o'r newydd â'r diwydiant bwyd yn seiliedig ar y naill ochr yn ymddiried yn y llall. Rydym ni'n realistig y bydd hyn yn cymryd amser a bod gofyn i'r ddwy ochr gymryd rhan yn y trafodaethau gydag agwedd agored a chydweithredol



RYDYM NI EISIAU DATBLYGU PERTHYNAS O'R NEWYDD Â'R DIWYDIANT BWYD YN SEILIEDIG AR Y NAILL OCHR YN YMDDIRIED YN Y LLALL

BOD YN AGORED A PHARCHU DATA

Po fwyaf yr wybodaeth y gallwn ei thynnu mewn i'n model newydd, y mwyaf effeithiol fydd y model hwnnw.

Mae cyfundrefn reoleiddio effeithiol o fudd i ddefnyddwyr a busnesau da fel ei gilydd. Mae defnyddwyr eisiau bod yn hyderus bod y bwyd maent yn ei brynu yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Wrth gwrs, mae gofyn i ni daro cydbwysedd rhwng rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n rhoi hyder iddynt am y bwyd y maent yn ei brynu, a pharchu pryderon busnesau am rannu data masnachol sensitif.

Credwn y bydd buddiannau defnyddwyr yn elwa fwy ar gyfundrefn reoleiddio effeithiol lle gall

busnesau bwyd deimlo'n hyderus eu bod yn gallu rhannu data â ni yn gyfrinachol, yn hytrach na drwy gyhoeddi'n rheolaidd yr holl ddata yr ydym ni'n gallu cael mynediad ato. Ni fyddwn, o dan unrhyw amgylchiadau, yn rhannu unrhyw ddata heb ganiatâd ei berchennog, a byddwn yn cydweithio'n agos â busnesau bwyd, eu cyfreithwyr a'n cyfreithwyr ni i sefydlu protocolau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol (e.e. ar ddiogelu data) a bydd yn bodloni anghenion pawb sy'n rhan o hynny. Rydym ni'n gobeithio, ochr yn ochr â'r camau hyn, y gall busnesau bwyd ddod yn fwy uniongyrchol agored â'u cwsmeriaid eu hunain am y ffordd y maent yn sicrhau bod bwyd yn ddiogel a bod modd ymddiried ynddo.

CYLLID CYNALIADWY I SICRHAU CYFUNDREFN WELL

Mae llawer o fusnesau eisoes yn talu am sicrwydd, p'un a yw hynny drwy'r llywodraeth yn codi tâl am reolaethau cig swyddogol, neu ar gyfer archwiliadau preifat i fodloni eu hunain am eu mesurau diogelwch bwyd, neu eu bod yn gysylltiedig â safon neu gynllun penodol. Byddwn yn rheoli cyfanswm y costau sicrwydd rheoleiddio i fusnesau, gan anelu at annog ymddygiad cadarnhaol gan fusnesau drwy ein model ariannu.

Mae llywodraethau dilynol wedi bod yn glir y dylai busnesau dalu'r costau rheoleiddio. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn ein pum egwyddor ar gyfer trawsnewid y maes rheoleiddio bwyd. Rydym ni'n gwerthfawrogi bod gan yr ASB rwymedigaeth i gynnal cyfundrefn reoleiddio effeithiol ac effeithlon, fel nad yw busnesau yn wynebu costau diangen neu'n dyblygu ymdrechion.

Law yn llaw â gweithio i sicrhau bod ein model yn ariannol effeithlon, byddwn yn cyflwyno model ariannu newydd i sicrhau cynaliadwyedd y system yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfundrefn codi tâl tryloyw. Y busnesau hynny lle mae gofyn i'r llywodraeth ymyrryd â nhw fwyaf fydd â'r costau uchaf. Bydd y dull newydd o ymdrin â sicrwydd yn galluogi busnesau i ddewis sut maent yn dangos cydymffurfiaeth (lle mae'r gyfraith yn caniatáu hyn), a fydd yn pennu'r costau sydd ynghlwm (a phwy sy'n cael eu talu). Fodd bynnag, byddwn yn gweithredu mesurau i leihau'r perygl bod darparwyr, boed yn rhai cyhoeddus neu breifat, yn torri corneli cydymffurfio er mwyn sicrhau mwy o elw, neu i geisio ennill a chadw busnes a referniw.

BETH SY’N NEWID I’R ASB?

Mae’r system rheoleiddio bwyd newydd hon nid yn unig yn golygu newid i fusnesau bwyd, awdurdodau lleol a llu o gyrff eraill sydd ynghlwm â hyn nawr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn golygu newidiadau mawr i’r ffordd yr ydym ni’n cael ein harwain a’r rolau a gyflawnir gan yr ASB. Bydd ymadael â’r Undeb Ewropeaidd hefyd yn golygu rôl wahanol i ni gan y bydd gofyn i ni ymgymryd â nifer o dasgau a gaiff eu cyflawni gan sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.

Bydd angen sgiliau newydd arnom i ddelio â’r gwahanol fathau o ddata yr ydym ni’n disgwyl ei gael. Bydd gofyn i ni ddod yn fwy craff yn fasnachol, er mwyn ein helpu i reoli’r contractau y byddwn ni’n eu rhoi ar waith gyda’r ystod newydd ac ehangach o bartneriaid cyflawni yr ydym ni’n rhagweld cydweithio â nhw (gan gynnwys awdurdodau lleol a darparwyr archwilwyr annibynnol).

Bydd cadw’r system yn gyfredol ac yn hyblyg yn gofyn i ni gadw’n gyfredol ag arloesiadau a datblygiadau yn y system fwyd, a datblygu ymatebion rheoleiddio cymesur.

Bydd hyn yn golygu datblygu a chynnal perthnasau agos â’r diwydiant bwyd. Gall ein sefyllfa y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd ein gwneud yn gyrchfan mwy deniadol i arloeswyr bwyd felly rydym ni angen y sgiliau a’r gallu i gofleidio hynny a helpu i gadw bwyd y. Deyrnas Unedig yn gystadleuol (ac yn ddiogel).

Rydym ni’n glir bod yn rhaid i fodel sy’n cymryd i ystyriaeth data o amrywiaeth eang o ffynonellau sicrwydd gael ei reoleiddio’n gadarn os yw am ddiogelu defnyddwyr yn effeithiol, ac er mwyn i ddefnyddwyr fod a hyder ynddo. Un o’r meysydd pwysicaf i ni ganolbwyntio arno yw sut yr ydym ni – yr ASB – yn archwilio, yn arolygu ac yn sicrhau awdurdodau a sefydliadau sydd eu hunain yn arolygu, yn gwirio, ac yn sicrhau’r data y mae ein model newydd yn dibynnu arno. Bydd hyn yn gofyn i ni ddatblygu a gweithredu trefniadau newydd er mwyn gwirio bod pob darparwr sicrwydd, yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn bodloni’r safonau a osodir gennym a byddwn yn cymryd camau amserol a chadarn pan mae’r dystiolaeth yn dangos nad ydynt. Mae hwn yn faes pwysig ychwanegol o ran bod yn agored ac yn dryloyw.

SUT ALLWN NI FESUR LLWYDDIANT?

Ein rôl yw diogelu iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd; rydym ni eisiau i’r cyhoedd ymddiried bod bwyd yn ddiogel, a’i fod yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label.

Mae gallu dangos yn glir y canlyniadau mae’r system reoleiddio yn eu cyflawni yn helpu i feithrin hyder y cyhoedd. Mae hefyd yn rhoi

tystiolaeth i’n partneriaid masnachu am effeithiolrwydd ein system reoleiddio. Bydd yr ASB yn datblygu set gliriach o fesurau hirdymor i dracio’r effaith sydd gennym ni (ac eraill) ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn perthynas â bwyd.

Nid yw gwella hyder y cyhoedd yn digwydd dros nos, felly wrth i ni dracio ein heffaith yn y tymor hir, byddwn ni hefyd yn adrodd ar ganlyniadau wrth iddynt ddod i'r amlwg i nodi p'un a ydyn ni'n symud i'r cyfeiriad cywir, ac ar y cyflymder cywir. **Bydd y rhain yn cynnwys:**

Canlyniadau am ddiogelu iechyd y cyhoedd a sicrhau diogelwch a dilysrwydd bwyd, megis:

- Tueddiadau mewn clefydau a gludir gan fwyd, digwyddiadau mawr a'r bobl sy'n ymweld â'r ysbty o achos alergeddau.
- Gwelliannau mewn lefelau cydymffurfio busnesau bwyd â rheoliadau
- Gwella safonau mewn busnesau bwyd sy'n peri mwy o risg, p'un a yw hynny gan nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith neu achos eu bod yn cynnwys peryglon eraill sy'n gysylltiedig â bwyd

Canlyniadau am ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, megis:


- Ymddiriedaeth y cyhoedd mewn rheoleiddio bwyd
- Gwelliannau yn nifery busnesau sy'n bodloni lefelau cydymffurfio isaf ac yn y nifer sy'n dangos safonau cydymffurfio da iawn
- Camau gorfodi yn erbyn busnesau bwyd sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau

Canlyniadau sy'n dangos ein bod yn dod yn rheoleiddiwr gwell, megis:

- Gwella hyder busnesau yn yr ASB, sy'n rhoi i ni well syniad o fusnesau ac yn gwella gwybodaeth
- Defnyddio ein gwybodaeth well i ragweld a chynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol mewn arferion busnes, ymddygiadau defnyddwyr neu risgiau bwyd
- Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran hybu cydymffurfiaeth reoleiddio fel bod y gost i'r pwrs cyhoeddus yn dod i lawr
- Lleihau'r baich gweinyddol ar fusnesau sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â chyfraith bwyd

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Rydym ni'n bwrw mlaen mewn dau gam o amgylch amserlen ymadael â'r Undeb Ewropeidd, fel y manylir isod.



I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth am fwyd, neu i lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn, ewch i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd: **food.gov.uk** – cliciwch ar 'Cymraeg'

Cysylltu â ni

-  Hoffi ni ar Facebook facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd
-  Ymuno â'n sgwrs ar Twitter [@FSACymru](https://twitter.com/FSACymru)
-  Gwyllo ni ar YouTube food.gov/youtube
-  Cael ein newyddion drwy RSS food.gov.uk/rss
-  Cael ein newyddion dros e-bost food.gov.uk/email – cliciwch ar 'Cymraeg'

Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau y Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd gan berchnogion yr hawlfraint dan sylw.